Mawrth 2026

# Adolygiad 2025/26 o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Chwarae

## Taflen wybodaeth #3

**Fel Cadeirydd Consortiwm Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Chwarae'r DU, mae'n bleser gennyf ddarparu'r diweddariad hwn ar yr adolygiad o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS). Mae'r sefydliadau cenedlaethol wedi bod yn goruchwylio'r broses o adolygu'r NOS, ac rydym bellach yn falch o lansio'n ffurfiol yr ymgynghoriad â'r sector ar y NOS drafft ar gyfer gwaith chwarae.**

**Hoffwn hefyd gydnabod a diolch i aelodau o Gonsortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU, Grŵp Ysgrifennu'r NOS Gwaith Chwarae a Grŵp Cynghori ar y NOS Gwaith Chwarae sydd wedi rhoi o'u hamser a'u harbenigedd i helpu i lunio drafftiau o'r NOS.**

**Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhoi diweddariad ar y broses adolygu hyd yn hyn a sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.**

**Jane Hawkshaw**

## Trosolwg

Mae Consortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU wedi gwneud cynnydd sylweddol ar ei adolygiad o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer gwaith chwarae, sy'n adolygiad a hunanariannwyd. Mae'r ymdrech gydweithredol hon yn cwmpasu'r pedair gwlad - Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr - ac fe'i cefnogir gan arbenigwyr yn y sector, Cynghorau Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae (PETC Lloegr, PETC Gogledd Iwerddon, Playwork Scotland a PETC Cymru), a rhanddeiliaid ledled y DU.

Dylid darllen y daflen wybodaeth hon ar y cyd â thaflenni gwybodaeth blaenorol: **www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/datblygur-gweithlu**

## Y cynnydd hyd yma

### 1. Datblygu'r Map Swyddogaethol

Drafftiwyd Map Swyddogaethol i amlinellu prif ddiben, prif swyddogaethau, a swyddogaethau lefel nesaf gwaith chwarae. Mae hyn yn rhan o'r broses o ddatblygu'r NOS fel y'i hamlinellwyd gan Banel Safonau a Fframweithiau NOS. Mae'r map swyddogaethol drafft yn rhoi trosolwg o'r holl safonau a'r rolau swyddi y maent yn eu cwmpasu.

### 2. Drafftio'r safonau

Mae'r grŵp ysgrifennu wedi drafftio safonau ar gyfer y rolau:

- Cynorthwyydd Gwaith Chwarae
- Gweithiwr Chwarae
- Rheolwr Gwaith Chwarae.

Y ffocws yw'r defnydd o waith chwarae mewn amrywiaeth o wahanol leoliadau a nod y safonau yw adlewyrchu'r swyddogaethau generig cyffredinol mewn gwaith chwarae. Ceir cyfres o safonau craidd ar gyfer pob rôl ynghyd ag unedau dewisol ychwanegol, ac rydym yn gofyn am eich adborth arnynt.

### 3. Datblygu Geirfa

Ochr yn ochr â datblygu'r NOS eu hunain, rydym wedi datblygu Geirfa ddrafft. Rydym hefyd yn gofyn am adborth ar yr Eirfa a'r derminoleg sydd ynddi. Weithiau mae'r Grŵp Ysgrifennu wedi trafod a phenderfynu ar un term oherwydd ei bod yn symlach defnyddio un neu ddau o eiriau yn y NOS. Mewn achosion eraill ceir amrywiadau yn y derminoleg a ddefnyddir ar draws y pedair gwlad. Felly, mae'r Eirfa wedi'i chynllunio i ddarparu eglurder ynghylch yr iaith ac i amlygu a chydnabod lle mae terminoleg arall hefyd yn cael ei defnyddio.

## Sut i gymryd rhan yn yr Ymgynghoriad ar y NOS

**Mae'r Ymgynghoriad ar y NOS ar agor rhwng Dydd Llun 9 Mawrth a Dydd Gwener 1 Mai 2026.**

Gallwch lawrlwytho'r NOS drafft, y Map Swyddogaethol a'r Eirfa yma: **www.chwarae.cymru/news_category/ymgynghoriad-nos-gwaith-chwarae/**

Gellir cwblhau'r arolwg ar-lein yma: **www.surveymonkey.com/r/adolygiadNOSgwaithchwarae**

Mae Consortiwm y NOS hefyd yn cynnal cyfres o weminarau ar draws y pedair gwlad lle y gallwch ddysgu mwy am y broses, trafod y map swyddogaethol a rhoi adborth cychwynnol. Rydym wedi darparu nifer o amseroedd a dyddiadau. Os na allwch fynychu digwyddiad eich gwlad chi, mae croeso i chi archebu lle ar ddyddiad arall sy'n addas i chi.

**Cofrestrwch drwy glicio ar y dolenni piws os gwelwch yn dda:**

### Yr Alban

**Dydd Mercher 18 Mawrth 10:00am - 12:00pm**
**Gweminar NOS Gwaith Chwarae (Yr Alban)**
**Ymuno | Microsoft Teams**

### Cymru

**Dydd Mercher 18 Mawrth 1:00pm - 3:00pm**
**Gweminar NOS Gwaith Chwarae (Cymru)**
**Ymuno | Microsoft Teams**

### Lloegr

**Dydd Mawrth 24 Mawrth 6:30pm - 8:30pm**
**Gweminar NOS Gwaith Chwarae (Lloegr)**
**Ymuno | Microsoft Teams**

### Gogledd Iwerddon

**Dydd Gwener 27 Mawrth 10:00am - 12:00pm**
**Gweminar NOS Gwaith Chwarae (Gogledd Iwerddon)**
**Ymuno | Microsoft Teams**




### Y camau nesaf

Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, bydd Consortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU a Grŵp Ysgrifennu'r NOS yn ystyried yr holl adborth ac yn llunio'r NOS terfynol. Bydd hyn yn cynnwys drafftio adroddiad ar yr ymgynghoriad a fydd ar gael i'w ddarllen. Cyhoeddir y NOS terfynol ym mis Mehefin 2026 yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn dilyn cyhoeddi'r NOS, bydd y Cyrff/Sefydliadau Dyfarnu yn dechrau'r broses o ailfapio neu ailddatblygu eu cymwysterau gwaith chwarae.

**I gael rhagor o wybodaeth am ddiben y NOS, y broses gymeradwyo a Chonsortiwm NOS Gwaith Chwarae'r DU, darllenwch daflen wybodaeth #1 taflen wybodaeth #2 taflen wybodaeth #3 neu anfonwch e-bost at: adolygiadnos@chwarae.cymru**

Playboard Northern Ireland – Leading the Play Agenda | Play England – Freedom to play | Play Scotland | Chwarae Cymru Play Wales | Playwork Foundation